COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Tachwedd 11eg, 2015 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Robert M. Jones (Cadeirydd), John Gwilym Jones (Is-gadeirydd), Thelma Cordingley, John E. Griffiths, Wyn Griffiths, Gwilym Hughes, Alun Jones, Catherine Ll. Morris, Cynghorwyr R.H. Wyn Williams a John B. Hughes (Cyngor Gwynedd)

YMDDIHEURIADAU

Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, R. Phillip Roberts, William B. Williams

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac estynnodd gydymdeimlad â'r Cyng. R. Phillip Roberts a'r teulu ar golli ei fam yr wythnos hon – anfonwyd cerdyn ar ran y Cyngor.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan neb fuddiant i'w ddatgan.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Hydref 14eg, 2015 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C15/1048/39/LL	Cais Ôl-weithredol i gadw sied amaethyddol – Bryn Cethin Fawr, Aber-soch **– Cefnogir**
C15/1050/39/LL	Adeiladu estyniad deulawr ochr, ymestyn balconi, creu ffenestr gromen ac un ffenestr arall – 49 Cae Du, Aber-soch **– Cefnogir**
C15/1093/39/LL	Addasu modurdy yn ystafell aml bwrpas a gosod balconi uwchben – Encil y Môr, 3 Maes Awel, Aber-soch **– Cefnogir**
C15/1057/39/LL	**Gwybodaeth Bersonol Cynghorwyr –** Tystysgrif Cyfreithloni Defnydd i ddefnyddio hen fwthyn ac adeilad allanol i ddefnydd preswyl – Tŷ Mawr Cottage, Tŷ Mawr, Aber-soch
C15/1155/39/LL	Sied amaethyddol – Frondeg, Llanengan **– Cefnogir**

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus – Tyddyn Callod, Aber-soch**

- Ni chafwyd cyfle i gysylltu â British Gas oherwydd derbyniwyd galwad ffôn drannoeth cyfarfod mis Hydref oddi wrth NPower Business...! Derbyniwyd gohebiaeth i gadarnhau'r newid.

- Ni dderbyniwyd ateb i'r ymholiad os gallai'r glanhawr agor y giât a Gwyn Parry ei chloi gyda'r nos.

b) **Biniau Baw Cŵn**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach.

c) **Foel Gron a Thir Comin Mynytho – Tir Pen y Mynydd**
Derbyniwyd copi o'r gytundeb newydd i'w harwyddo oddi wrth Merfyn Pugh; awgrymodd arwyddo dau a'u hanfon at denant Pen y Mynydd iddo yntau eu harwyddo a'u dychwelyd ato ef.

ch) **Gwefan y Cyngor**
Anfonwyd mwy o ddogfennau ond, nid yw'r wefan yn fyw eto.

d) **Glanhau Afon Soch**
Ni dderbyniwyd ateb pellach oddi wrth Roberts Ffestiniog.

dd) **Meddygfa Aber-soch**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach.

e) **Cheshire Lamont – Gwesty'r Harbwr/'Harbour Mews Development'/ Llwybr Estyllog at lan Afon Soch**
- Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach oddi wrth y cwmni datblygu.
- Aflwyddiannus fu'r cais am Gyllid Prosiectau Graddfa Fach Llywodraeth Cymru ond, dyfarnwyd £10,000 o Gronfa AHNE.
- Cyflwynwyd cais cynllunio ond, ni fu heb ei drafferthion. O ganlyniad, achosa'r oedi drafferthion â dyddiad cychwyn y cynllun ac, yn sicr, â gwario arian nawdd AHNE cyn diwedd mis Chwefror. Penderfynwyd, mynnu bod swyddog o'r Adran Gynllunio yn cyfarfod y Clerc yn Swyddfa Ddidoli'r Post ym Mhwllheli i gasglu'r cais.
- Mae angen Cais Atal Llifogydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ond, ni ellir ei gyflwyno heb Ganiatâd Cynllunio.
- Derbyniwyd dau bris am y gwaith a phenderfynwyd derbyn yr un am £23,300.00, sef strwythur wedi'i adeiladu â defnydd a ailgylchwyd ac sy'n naturiol wrth-lithrig *(Millboard Weather Decking – Recycled Fabricated System)*.
- Mynychodd y Clerc yr arddangosfa o gynlluniau diwygiedig datblygiad Gwesty'r Riverside yn Neuadd Aber-soch. Cafodd air â'r datblygwr am y gobaith o ymestyn y llwybr at y bont maes o law. Nid oedd ganddo wrthwynebiad mewn egwyddor ond, awgrymodd yr ystyriai ef ymhellach pe tynnai'r Cyngor hwn ei wrthwynebiad i'r cais yn ôl – ategwyd hynny gan Cyng. Wyn Williams ar ôl sgwrsio ag o hefyd.

f) **Gohebiaeth aii) Un Llais Cymru (ULlC)**
Ni dderbyniwyd ymateb.

ff) **Cyfreithwyr Gamlins – Cae Chwarae Aber-soch**
Derbyniwyd copïau o ohebiaeth rhwng Cyfreithiwr y Cyngor a pherchennog 23 Maes Awel.

g) **Cefnogaeth Gorfforol – Her Gwynedd**
Penderfynwyd cynnal cyfarfod arbennig i drafod a pharatoi ymateb nos Fercher nesaf, sef Tachwedd 18fed yn y Ganolfan am saith o'r gloch – anfonir copi o'r ffurflen ymateb at bawb â'r cofnodion.

ng) **Llythyr Ymddiswyddiad – Cyfethol i Sedd Wag Achlysurol yn Ward Aber-soch**
Derbyniwyd cais oddi wrth Dylan Llwyd y dymunai gael ei ystyried ar gyfer ei gyfethol; fe'i cyfetholwyd ar ôl derbyn ei gais.

h) **Cyngor Tref Cricieth – Gwrthwynebiad i Gais Cynllunio**
Anfonwyd sylwadau'r Cyngor yn gefnogaeth i'r uchod.

i) **Wicksteed Playgrounds – Arolwg Diogelwch Blynyddol**
Derbyniwyd ymateb oddi wrth G.L. Jones Ltd. yn dilyn ei hysbysu fod ei bris yn rhy ddrud. Noda, gan nad yw'n gwneud y math yma o waith ar yr un raddfa â chwmnïau o Loegr, fod ei gostau'n llawer uwch ac y gwnâi synnwyr i'r Cyngor eu defnyddio a byddai'n hollol hapus brisio am y gwaith a ddilyna'r archwiliad.

l) **Cyng. Wyn Williams – Is-ddeddf Masnachu ar y Stryd**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach yn dilyn gofyn a oes rhaid gwneud cais arall am Is-ddeddf, gan nad oes cofnod o un yng Nghaernarfon. Adroddodd Cyng. Wyn Williams y credir mai Gorchymyn oedd yr un a grëwyd yn y saithdegau/wythdegau.

ll) **8. Gohebiaeth – Llywodraeth Cymru i) Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2016**
Derbyniwyd penderfyniadau 45 i 52 Adran 10 yn bwerau caniataol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref.

m) **Caffi'r Cof**
Derbyniwyd llythyr diolch oddi wrth Mrs. Elisabeth Jones, Aber-soch, am y cyfraniad at yr uchod.

n) **W. Elfyn Williams, Uwch Swyddog Gorfodaeth Cynllunio**
- ***Yr Hen Iard Lo, Lôn Garmon, Aber-soch*** – Symudwyd yr uned ar ddiwedd y tymor.
- ***Bryn Cethin Fawr, Lôn Garmon, Aber-soch –*** Trafodwyd y cais cynllunio heno – gweler cofnod 3. Ceisiadau Cynllunio.

o) **Wayforward (Shropshire) Limited –** ***Proposed Works on Overhead Power Line***
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach.

5. **MATERION PRIFFYRDD**

a) **Biniau Halen**
Penderfynwyd trafod y mater yng nghyfarfod wythnos nesaf – Her Gwynedd.

b) **Rhaglen Waith mis Tachwedd**

- Gwaith traenio – Machroes, Bwlchtocyn.
- Claddu cebl trydan ac wedyn ailwynebu ond, efallai na ddigwydd tan fis Rhagfyr neu hwyrach. Bydd angen cau'r ffordd am gyfnod hir, efallai mis – Lôn Golff, Aber-soch (Cilffordd 38). Adroddodd Cyng. Wyn Williams mai ym mis Ionawr y gwneir y gwaith.
- Tocio tyfiant ar yr ymylon – Llwybr 12 Crowrach Isaf, Bwlchtocyn.
- Gosod giât newydd ger Capel Bethlehem, Cilan – Llwybr 8a Cilan.

c) **Gor-yrru ym Mynytho**

Cysylltwyd â GanBwyll ond, ni dderbyniwyd ymateb ar wahân i gydnabod derbyn ymholiad.

ch) **Gwasanaeth Cyfreithiol – Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Cau Lôn Cim, Pontllyfni, a Lôn Cilan, Sarn Bach) (Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro) 2015 – Ail Rybudd**

Copïau, er gwybodaeth, o'r Rhybudd Cyhoeddus uchod. Daw i rym ar Hydref 26ain a phery am dri mis ond, disgwylir cwblhau'r gwaith o fewn tridiau.

6. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) ***Llwybr 69 Bryn Ffynnon, Stad Sant Tudwal, Mynytho***

Gobeithir ei ailagor tua'r Nadolig.

b) ***Taith Gerdded Ddigidol***

Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach oddi wrth Seimon Jones.

c) ***Shanty, Pen Bennar***

Ni chysylltodd Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, â'r tirfeddiannwr.

ch) ***Llwybr 18 – Mynydd Cilan i Garreg Lwyd***

Penderfynwyd cael trafodaeth bellach â DWO am ei awgrymiadau parthed yr uchod a Llwybr 17.

d) ***Ffens ger Isfryn, Mynytho***

Awgrymwyd y gellid gofyn i Cyril Jones edrych trwy lyfrau cofnodion y Cyngor i chwilio am unrhyw gofnod o'r ffens yn Archifdy Caernarfon gan ei fod yn ymwelydd cyson; cydsyniwyd â hynny.

dd) ***Torri'r Llwybrau***

Penderfynwyd rhestru'r llwybrau (Categori 1 a 2) ym mhob ward cyn penderfynu sut rhennir hwy ar gyfer tendro'r gytundeb.

7. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Ramblers Cymru – Ydych chi eisiau gwarchod a gwella'r mannau lle mae pobl yn cerdded yn eich ardal chi?***

Copi o ddogfen ganllaw, *Llwybrau i Bobl: Canllaw i Lwybrau Cyhoeddus ar gyfer Aelodau Cynghorau Cymuned a Thref*, Ramblers Cymru, er gwybodaeth.

ii) ***Canllawiau Pensiwn***
Copi o dri canllaw, er gwybodaeth, ar y drefn newydd a ddaw i rym yn 2017.

iii) ***Adolygiad o Arian Grant Refeniw i Gynghorau Cymuned a Thref***
Angen sylwadau erbyn Tachwedd 16eg.

b) **Llywodraeth Cymru**

i) ***Ymgynghoriad: Drafft Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)***
Angen sylwadau erbyn Ionawr 18fed, 2016.

ii) ***Cylchlythyr Hydref – Newyddion Cynghorau Cymuned a Thref***
Copi, er gwybodaeth.

iii) ***Bwletin Adnoddau Naturiol – Tachwedd 2015, Rhif 1***
Copi o'r uchod. Derbyniwyd ateb na allai'r cyfeiriad e-bost dderbyn gohebiaeth pan gwynwyd mai copi Saesneg yn unig a dderbyniwyd.

c) **David Furness – Derlwyn/*Ink Pot***
Derbyniwyd ateb oddi wrth yr uchod, yn dilyn anfon llythyr i fynegi siomedigaeth o weld y newidiwyd enw Derlwyn i 'Ink Pot'. Eglurwyd y newidiodd ei enw â'r Post Brenhinol pan brynodd yr eiddo a bwriada roi'r enw yn y Gymraeg (Pot Inc) pan fydd wedi lledu'r fynedfa; mae'n amlwg nad yw'n fwriad ganddo ei newid yn ôl i Derlwyn.

ch) **Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru – Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru yn gofyn am farn ar Wasanaethau Iechyd yng Nghymru**
Trefnwyd cyfarfodydd i roi cyhoeddusrwydd i'r uchod – Wrecsam ddoe a Chaerfyrddin fory.

d) **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – Cyfrif y Nifer sy'n Cysgu ar y Stryd yng Ngwynedd 2015**
Arolwg o'r uchod rhwng Tachwedd yr ail a'r 15fed a chyfrif y nifer ar y stryd yn ffisegol nos Fercher, Tachwedd 25ain rhwng deg o'r gloch a hanner nos.

dd) **Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd – Ymgynghoriad Datganiad o Bolisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd**
Pwrpas y Datganiad yw amlinellu'r polisïau a weithredir gan yr Awdurdod Trwyddedu wrth ymgymryd â'i swyddogaethau – angen sylwadau erbyn Tachwedd 24ain.

e) **Clwb Moduro Harlech a'r Cylch Cyf. – Rali Goffa James Trenholme, Tachwedd 28-29ain, 2015**
Llythyr yn hysbysu'r uchod er gwybodaeth.

f) **Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru – Ymgynghoriad ar Flaenoriaethau Plismona**
Angen sylwadau erbyn Ionawr 15fed, 2016.

ff) **Swyddfa'r Post – Bwriad Symud Swyddfa'r Post Aber-soch i Adeilad Newydd a Moderneiddio'r Gangen**
Angen sylwadau erbyn Tachwedd 27ain.

g) **Ysgol Sarn Bach**
Derbyniwyd e-bost oddi wrth y Pennaeth yn diolch a gwerthfawrogi'r llythyr llongyfarchiadau a anfonwyd.

ng) **Uwch Swyddog Gorfodaeth Cynllunio – 2 Penybryn, Mynytho**
Ateb cwyn am sied a godwyd ar yr eiddo uchod. Ymwelodd â'r safle a noda na fydd angen hawl pe bai'r perchennog yn gostwng uchder hanner y to sy'n wynebu'r de-ddwyrain i 2.5m. Derbyniodd gynllun yn dangos y newidiadau oddi wrth y perchennog a bwriada gadarnhau na fydd yr adeilad angen hawl pe cedwid at y newidiadau. Adroddwyd na wnaed dim mwy o waith yno ar wahân i godi'r ffrâm.

8. DYFARNIADAU CYNLLUNIO

C15/0341/39/LL	Gwaith peirianyddol i greu llithfaen – Ynys Sant Tudwal (Gorllewin), Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C15/0878/39/LL	Lolfa haul ar flaen y tŷ – Parc y Delyn, 6 Ystâd Sant Tudwal, Mynytho – **Caniatawyd ag amodau**
C15/0879/39/LL	Cais diwygiad ansylweddol i newid lleoliad a dyluniad modurdy a ganiatawyd dan Ganiatâd Rhif C13/0025/389/LL – 19 Lôn Hawen, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C15/0901/39/LL	Adnewyddu Caniatâd Cynllunio C11/0277/39/LL i adeiladu tŷ annedd deulawr – Tir ger Tŷ Adda, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C15/0913/39/AC	Rhyddhau Amod 6 o Ganiatâd Cynllunio C15/0616/39/LL sydd yn ymwneud ag arllwysiad dŵr aflan a dŵr wyneb – Carisbrooke Hotel, Aber-soch **– Caniatawyd yn ddiamodol**
C15/0927/39/LL	Dymchwel adeilad allanol presennol a chodi estyniad yn ei le gyda rhan to fflat yn cysylltu'r estyniad i'r bwthyn, ynghyd ag addasiadau i'r bwthyn – Rewig, Cilan **– Caniatawyd ag amodau**
C15/0928/39/HY	Cais i gadw arwydd – Maes Carafannau Bryn Cethin Bach, Aber-soch – **Caniatawyd yn ddi-amodol**
C15/0952/39/LL	Estyniad ac addasiadau yn cynnwys estyniad deulawr cefn, newidiadau i do estyniadau ochr presennol ac adeiladu porth blaen – Mur Poeth, Cilan **– Caniatawyd ag amodau**
C15/1090/39/AC	Rhyddhau Amodau 5, 6, 8 a 9 – White House Hotel, Aber-soch **– Caniatawyd yn ddi-amodol**
C15/0984/39/MG	Cais diwygiedig ar gyfer materion a gadwyd yn ôl er mwyn diwygio dyluniad y tŷ – Tir gyferbyn â Cartrefle, Lôn Pont Morgan, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**

9. CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU

Llwyddwyd, o'r diwedd, cael trefn ar weinyddu cyfrifon y Cyngor, h.y. arwyddo sieciau ac agor cyfrif newydd i'r Fynwent.

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Tachwedd y Clerc (Rh/S 001946), ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Cyngor Gwynedd – £95.00 (Rh/S 001941 – Cais Cynllunio)
b) Cymdeithas Dwristiaeth Aber-soch a Llŷn – £200.00 (Rh/S 001944 – Cyfraniad, siec yn lle un Rhif 1893 nas banciwyd ym mis Mawrth)
c) Cyfoeth Naturiol Cymru – £50.00 (Rh/S 001945 – Cais Atal Llifogydd)
ch) British Gas – £24.47 (D/U – Cyflenwad Trydan y Toiledau)
d) Talafon Cyf. – £125.00 (D/U – Cyfraniad at Drydan Teledu Cylch Cyfyng)

Derbyniadau
a) Arian Mynediad y Toiledau – £74.00 (£55.80 a £18.20)
b) Cyllid a Thollau – £1933.51 (Ad-daliad TAW Ebrill – Medi)
c) G.D. Roberts a'i Fab, Ymgymerwr – £240.00 (Tâl Claddu)

10. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Rhagfyr 9fed, 2015 am saith o'r gloch